

ISSN 2053-5171
Rhifyn 3
Hydref 2013

Herio Materion Crefyddol

David Wilkinson
ar Dduw mewn
Diwylliant Poblogaidd

Adam Willows
ar Ddamcaniaeth
Rhinwedd Aristotlys

Gerard Loughlin
ar Ffydd, Rheswm
A Datguddiad

Jeff Astley
ar Ddisgrifio Duw

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 3 Hydref 2013

Cynnwys

Chwilio am Dduw mewn Diwylliant Poblogaidd Yr Athro David Wilkinson	2
Damcaniaeth Rhinwedd Aristotlys Adam Willows	8
Ffydd, Rheswm a Datguddiad Yr Athro Gerard Loughlin	14
Disgrifio Duw Yr Athro Jeff Astley	19

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Glyndŵr, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wreccsam)

Yr Athro William Kay (Prifysgol Glyndŵr)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Glyndŵr)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wreccsam)

Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Glyndŵr)

Yr Athro Michael West (Prifysgol Glyndŵr)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru

Chwilio am Dduw mewn Diwylliant Poblogaidd

David Wilkinson

Tra mae rhai'n dadlau bod y diwylliant Gorllewinol yn dod yn fwyfwy seciwlar, o fewn maes diwylliant poblogaidd – hynny yw ffilmiau, teledu a cherddoriaeth – mae cwestiynau am Dduw'n cael eu harchwilio mewn ffyrdd adloniadol yn ogystal â ffyrdd difrifol. Mae'r erthygl hon yn archwilio'r maes newydd hwn o feddwl sydd ar gynydd o fewn astudiaethau crefyddol ac yn rhoi fframwaith sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau'r rhai hynny sy'n troi heibio'r cyfan fel adloniant dibwys a'r rhai hynny sy'n darllen eu cred fydd eu hunain i bopeth.

Cyswllt manyleb: CBAC RS3 CS: Astudio Crefydd yn y Gymdeithas Gyfoes (A2), 2. Crefydd mewn ffilm.

Darganfod Duw mewn llyfod poblogaidd

Yn ôl yn 2007, roedd dau lyfr i'w gweld ochr yn ochr â'i gilydd yn aml ar y rhestr o'r llyfrau a oedd yn gwerthu orau (*best-seller*). Enillodd llyfr Richard Dawkins, *The God Delusion* enwogrwydd bydeang oherwydd ei ymosodiad ar grefydd a dadleuon traddodiadol ynghylch bodolaeth Duw. Croesawyd a defnyddiwyd y llyfr gan lawer y tu allan i'r byd academiaidd. Dywedodd Derren Brown y rhithiolwr teledu ar glawr cefn y llyfr, *'This is my favourite book of all time . . . It is a heroic and life-changing work'* (Dawkins, 1996). Mae comediwyr fel Eddie Izzard, Ricky Gervais, Stephen Fry a Dara O'Brien yn aml yn cynrychioli'r un math o anffyddiaeth yn eu comedi. Mae enghreifftiau felly'n ymddangos fel petai nhw'n ategu'r gosodiad bod y diwylliant

Gorllewinol yn cael ei yrru gan wyddoniaeth i fod yn fwy seciwlar, gan weld crefydd yn amherthnasol, afresymol ac yn hen ffasiwn.

Fodd bynnag, roedd y llyfr, *Harry Potter and the Deathly Hallows*, a oedd hefyd ar y rhestr llyfrau a oedd yn gwerthu orau yn 2007, yn tynnu ar themâu, delweddau a dyfyniadau Cristnogol wrth ddod â'r gyfres anghyffredin hon i'w hanterth pryd y gwelir mai'r gelyn olaf i'w ddinistrio yw marwolaeth - *'the last enemy to be destroyed is death'*. Dywedodd J. K. Rowling ei fod bob amser wedi bod yn anodd siarad am hyn oherwydd byddai datgelu rhywfaint o fotiffau Cristnogol y llyfr yn rhoi gormod o awgrym ynghylch beth fyddai diwedd y stori (*Church of England Newspaper*, 10 Awst, 2007).

Chwilio am Dduw mewn Diwylliant Poblogaidd

Nid yw Harry Potter ar ben ei hun yn hyn. Mae *The Simpsons* yn parhau i fod yn deulu sy'n mynd i'r eglwys, a thra mae Ned Flanders a Rev Lovejoy yn cael eu gwatwar yn barhaus, mae momentau pan fydd rhai o gwestiynau mawr crefydd yn cael eu harchwilio – oes enaid gennym ni, sut un yw Duw, natur temtiad a maddeuant, ac ystyried tybed oes bywyd ar ôl marwolaeth (Pinsky, 2002). Mae *Star Wars* yn archwilio'r themâu mawr, gobaith, da a drwg, ac a oes realaeth y tu hwnt i'r hyn y gallwn ni ei ddeall yn wyddonol (Wilkinson, 2000). Mae'r eiconau enfawr hyn o'r diwylliant poblogaidd yn sefyll ochr yn ochr â sagâu fel *The Lord of the Rings* a *The Lion, the Witch and the Wardrobe*, nofelau sydd yn adlewyrchu ffydd Gristnogol gref eu hawduron.

Mae hyn yn golygu bod diwylliant poblogaidd yn rhywbeth cymhleth iawn yn y ffordd y mae'n cynrychioli crefydd.

Cymryd diwylliant poblogaidd o ddifrif

Fe all hyn fod yn her i gymunedau ffydd. Mae Robert Johnston yn gwneud y sylw canlynol ar ffilmiau diweddar Hollywood:

Conversation about God is increasingly found outside the church as well as within it. One of the chief venues for such conversation is the movie theater with its adjacent cafes. (Johnston, 2006, t. 14)

Eto, mae cymunedau ffydd wedi bod wrthi'n aml yn osgoi teledu, ffilmiau a cherddoriaeth bop.

There can be no doubt that the movies with their sensationalism, their false standards, their pornography, and their open exhibition of moral laxity and lawlessness are influencing our young people today far more than

the church, and seriously counteracting the combined stabilizing influence of the school and home. (Maxwell S. Stewart, dyfynnwyd yn Romanowski, 1996, t. 36)

Felly yr ysgrifennodd awdur yn *The Christian Century* yn 1930, ac mae rhywun yn meddwl tybed beth fyddai gan yr awdur hwnnw i'w ddweud am fyd y *Family Guy*, *Grand Theft Auto* a *Ted!* Mae'r 'pop culture wars' hyn, fel mae Romanowski wedi eu cymeriadu, yn aml wedi gweld y diwylliant poblogaidd fel rhywbeth yn ymwneud â'r diafol, neu fel adloniant dibwys a heb arwyddocâd.

Mae Lawrence Levine yn dangos, yn *Highbrow/Lowbrow*, bod rhaniad wedi bod yn y diwylliant Gorllewinol rhwng diwylliant uwch a diwylliant is, yn enwedig ym maes addysg (Levine, 1988). Felly, mae'r celfyddydau uchel-ael fel cerddoriaeth glasurol wedi bod yn werth eu dadansoddi a'u parchu, tra mae celfyddydau isel-ael fel roc a rôl yn cael eu troi heibio fel pethau di-werth. Mae Romanowski ac eraill wedi dangos sut mae'r eglwys wedi adlewyrchu'r gwahaniad hwn, gan weld y celfyddydau uchel-ael fel pethau sanctaidd ac yn demoneiddio'r celfyddydau isel-ael (Romanowski, 2006).

Wrth gwrs, mae diwylliant defnyddwyr byd-eang mewn cyswllt agos iawn â'r diwylliant poblogaidd, sydd ag apêl fyd-eang ac yn ymdreiddio mewn gwirionedd i bob grŵp cymdeithasol. Pan arwyddodd Roger Enrico, pennaeth cwmni Pepsi, ddêl \$2 biliwn yn 1996 i farchnata cynnyrch ynghlwm wrth *The Phantom Menace* fe ddywedodd, 'This will allow us to connect with virtually every consumer in the world' (Rayment, 1999).

Ond, ochr yn ochr â negeseuon o'r fath a delweddau wedi eu cynllunio i newid ffordd o fyw trwy rym prynu, ac ochr yn ochr â storïau crefftus wedi eu llunio'n

Chwilio am Dduw mewn Diwylliant Poblogaidd

ofalus i greu adloniant, mae rhai cwestiynau mawr yn codi. Yn wir, mae gan storiâu'r diwylliant poblogaidd ffordd o gwestiynu'r byd yn hytrach na chynnig atebion. Mae stori'n gyfrwng grymus iawn i ofyn cwestiynau. Roedd y 380,000 o bobl, yn Lloegr a Chymru, a gofrestrodd eu crefydd fel 'Jedi' yng Nghyfrifiad 2001 Census, wedi camddeall y mewnwediad allweddol hwn (roedd y nifer i lawr i hanner hynny yng Nghyfrifiad 2011). Gall y diwylliant poblogaidd ymgorffori pryderon y rhai hynny sy'n ceisio'r ysbrydol, gall ofyn sut mae modd i'r byd fod yn well lle, gall archwilio beth mae'n ei olygu i fod yn fod dynol, a gofyn sut un yw Duw. Fe all hefyd ymgorffori lleisiau dryslyd, emosiynol a dig, sydd wedi eu dadryddfrenio. Am y rhesymau hyn, mae angen i'r diwylliant gael ei gymryd o ddifrif.

Cymryd amser i ddeall y diwylliant poblogaidd

Bydd rhai pobl grefyddol yn rhyngweithio â'r diwylliant poblogaidd trwy ysbeilio ffilm neu raglen deledu dim ond er mwyn cael dyfyniad neu ddelwedd i ategu eu safbwynt crefyddol eu hunain. Er enghraifft, dadleuodd rhai Cristnogion mae alegori o'r ffydd Gristnogol oedd y drilog *The Matrix*, gyda Neo yn cynrychioli Iesu Grist. Y drafferth yw bod storiâu'n fwy cymhleth na hynny. Mae dull o'r fath yn symptomatig o anllythrennedd cyfryngau dyfnach a diffyg ymrwymiad real i weithio'n galed i ddeall ffurf gelfyddydol a thyrchu o dan yr wyneb. Gallwn ddarlunio hyn yn achos *Star Wars*.

Mae George Lucas, awdur *Star Wars*, yn priodoli natur a phoblogrwydd *Star Wars* i'r ffaith ei bod fel pwddin hufen ia haenog 'ice-cream sundae'. Hynny yw, mae'n gyfuniad o lawer o nodweddion

gwahanol a deniadol. Yn gyntaf, mae'n cynnwys chwedl, gan ddefnyddio stori gyffredin o ddelweddau, symbolau a storiâu, fel bod Luke Skywalker yn dilyn siwrne glasurol yr arwr. Yn ail, yn *Star Wars* fe gewch chi'r Gorllewinol yn ail greu i Hollywood y genre ffilm gowboi orllewinol (Western), ond y tro hwn yn y gofod allanol wrth i Han Solo ddod yn saethwr ar y ffin. Yn drydydd, mae *Star Wars* yn llawn o arddull a storiâu ffuglen wyddonol yn deillio o ddiddordeb mawr Lucas yn y stribedi comic Flash Gordon a Buck Rogers. Yn bedwerydd, mae'n stori sy'n adlewyrchu Oes y Gofod (*Space Age*) a'r cyfnod yn dilyn cam bychan Neil Armstrong ar y Lleuad. Yn olaf, mae Lucas yn benthyca'n hael o'r ffilmiau Samurai, yn enwedig *The Hidden Fortress*, Akira Kurosawa (1958). Ar ben yr elfennau hyn i gyd, mae *Star Wars* yn ysgeintio'n hael dameidiau bach o grefydd, er enghraifft mae *The Empire Strikes Back* yn amgynwys nifer o themâu Bwdhaidd.

Y perygl yw canolbwyntio ar unwaith ar y dyfyniadau a'r delweddau crefyddol hyn, a chymeriadu *Star Wars* fel alegori Fwdhaidd, Oes newydd, neu hyd yn oed fel alegori Gristnogol. Ond mae 'ice cream sundae' *Star Wars* yn cael ei ddal ynghyd gan gwestiynau mawr ynghylch gobaith, da a drwg, a throsgynoldeb. Yn debyg i'r gwydryn sy'n dal y gwahanol fathau o hufen ia a siocled ac ati, mae'r cwestiynau mawr hyn yn rhoi elfen ddeniadol i'r stori. Wrth drafod y cwestiwn o drosgynoldeb, mae Lucas yn gwneud y sylwadau canlynol:

I would hesitate to call the Force God. It's designed primarily to make young people think about mystery. Not to say, 'here's the answer'. It's to say 'Think about this for a second. Is there a God? What does God look like? What

Chwilio am Dduw mewn Diwylliant Poblogaidd

does God sound like? What does God feel like? How do we relate to God? (Moyers & Lucas, 1999)

Mae angen i ni ddeall ac ymwneud â'r cwestiynau hyn, a chyda'r stori fel cyfanwaith, yn hytrach na dim ond dewis y darnau sy'n ategu ein sefyllfaoedd ni ein hunain. Mae Cooper a Skrade yn ein hannog i fod yn barod i ymateb i ffilmiau mewn ffordd sy'n caniatáu iddyn nhw ein swyno, ein goleuo a'n hysgytio ni (Cooper & Skrade, 1970). Wrth ymdrin yn ddiwinyddol mae angen rhoi sylw manwl i'w genre, ei natur fel celfyddyd, a'r cwestiynau dyfnach y mae'n eu gosod. Ymhellach, rydyn ni angen yr hyn y mae Michael Dyson yn ei alw'n '*ethical patience*' (Dyson, 2001) – i wrthwynebu tuedd grwpiau ffydd i gyhoeddi barn ar bethau fel bod yn gywir neu'n anghywir cyn iddyn nhw glywed y stori gyfan.

Ymwneud â'r diwylliant poblogaidd

Beth yw'r prif themâu y gallai myfyriwr sy'n astudio crefydd eu harchwilio, wrth ymwneud â diwylliant poblogaidd? Mae Gordon Lynch yn awgrymu y gall y myfyriwr archwilio perthynas crefydd â bywyd bob dydd, a hefyd sut mae'n bosib i grefyddau ddefnyddio elfennau o ddiwylliant poblogaidd. Efallai mai un o'r enghreifftiau mwyaf eithafol o hyn yw'r ffordd y mae rhai mudiadau crefyddol newydd wedi integreiddio elfennau o ffuglen wyddonol i'w systemau cred. (Er enghraifft, fe integreiddiodd y cwlt *Heaven's Gate*, y cwlt y cyflawnodd ei aelodau hunanladdiad mewn plasty yn San Diego, lawer o themâu o *Star Trek*.) Yn ychwanegol, mae cwestiynau i'r rhai sy'n aelodau o gymunedau ffydd ynghylch sut y dylid cyfathrebu ffydd yn y diwylliant Gorllewinol, a sut mae'n bosib i ddiwylliant poblogaidd fod yn gyfrwng i fyfyrion ar y cwestiynau mawr (Lynch, 2005).

Hoffwn awgrymu rhai themâu pwysig eraill. Yn gyntaf, rôl y dychymyg (*the role of the imagination*). Mae'r astroffisegwr Lawrence Krauss wedi ysgrifennu llyfr hwyl ar ffiseg *Star Trek* (Krauss, 1997), gan ofyn a yw '*warp drive*' a phethau o'r fath yn bosib. Mewn rhagair i'r llyfr mae Stephen Hawking yn awgrymu, '*Science fiction like Star Trek is not only good fun but it also serves a serious purpose, that of expanding the human imagination.*' Mae paralel diddorol yma gyda'r ffordd y mae crefydd yn defnyddio delweddu, cerddoriaeth, stori a chelfyddyd i ymestyn y dychymyg dynol.

Yn ail, mae'r rôl adloniadol (*the role of entertainment*) yn ganolog i'r diwylliant poblogaidd. Ond sut mae'n gweithredu o fewn crefydd? Yn wir, a yw cymunedau ffydd yn gweld adloniant fel rhodd gan Dduw? Wrth feddwl am beth mae'n ei olygu i fod yn fod dynol, beth yw arwyddocâd chwerthin mewn ymateb i gartŵn, y teimlad sy'n cael ei ennyn wrth wyllo *romcom*, yr ofn sy'n gysylltiedig â stori arswyd, neu'r fuddugoliaeth sy'n anochel ar ddiwedd ffilm gyffrous? A yw'r ffurfiau hyn o adloniant ambell dro'n rhoi naratif gwahanol i'r hyn sy'n cael ei gynnig gan gymunedau crefyddol?

A'r drydedd rôl yw rôl y dwyfol y tu allan i gymunedau ffydd (*role of the divine outside faith communities*). Mae rhai wedi dadlau bod archwilio'r cwestiynau sy'n ymwneud â'r diwylliant poblogaidd yn aml yn arddangos Duw ar waith yn y byd mewn ffordd annisgwyl. Mae Robert Johnston yn gwneud y sylw canlynol, '*Movies have, at times, a sacramental capacity to provide the viewer an experience of transcendence*' (Johnston, 2006, t. 57); tra mae'r Pabydd Andrew Greeley yn awgrymu y gall y gwneuthurwr ffilmiau ddatgelu presenoldeb Duw ar adegau mewn ffordd glir a phenodol, '*sharply and decisively*' (Greeley, 1998).

Chwilio am Dduw mewn Diwylliant Poblogaidd

Cyswilt rhwngwyd

<http://www.damaris.org/> (Elusen addysgol yw Damaris sy'n creu adnoddau cymunedol swyddogol i gyd-fynd â'r ffilmiau nodweddiedd diweddaraf, er mwyn helpu pobl i

ymwneud â'r themâu a'r syniadau sy'n cael eu harchwilio yn y ffilmiau)

Pwyntiau trafod

1. Mae Romanowski (1996) yn dadlau bod y berthynas rhwng y diwylliant poblogaidd a'r eglwys Gristnogol yn Unol Daleithiau America yn aml wedi bod yn un ryfelgar. Pam mae rhai cymunedau ffydd yn teimlo bod y diwylliant poblogaidd yn eu bygwth?
2. Pa mor bwysig yw bwriad gwreiddiol yr awdur, wrth i ni ddehongli ffilm, llyfr neu gân mewn termau crefyddol?
3. Beth all stori ei wneud i'n helpu ni ddeall natur bodau dynol, Duw a'r bydysawd?

Chwilio am Dduw mewn Diwylliant Poblogaidd

Cyfeiriadau

- Cooper, J.C., & Skrade, C. (1970). *Celluloid and symbol*. Philadelphia: Fortress Press.
- Dawkins, R. (2006). *The God delusion*. London: Bantam Press.
- Dyson, M. (2001). *Holler if you hear me: Searching for Tupac Shakur*. London: Plexus.
- Greeley, A. (1998). *God in popular culture*. Chicago: Thomas More.
- Johnston, R.K. (2006). *Reel spirituality: Theology and film in dialogue*. Grand Rapids, Michigan: Baker Academic.
- Krauss, L.M. (1997). *The Physics of Star Trek*. London: Flamingo.
- Levine, L. (1988). *Highbrow/Lowbrow: The emergence of cultural hierarchy in America*. Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press.
- Lynch, G. (2005). *Understanding theology and popular culture*. Oxford: Blackwell.
- Moyers, B., & G. Lucas (1999). Of myth and men, *Time*, 26th April.
- Pinsky, M.I. (2002). *The gospel according to The Simpsons: The spiritual life of the world's most animated family*. Louisville, Kentucky: Westminster John Knox Press.
- Rayment, T. (1999). *The Sunday Times*, 16th May.
- Romanowski, W.D. (1996). *Pop Culture Wars*. Wheaton: InterVarsity Press.
- Romanowski, W.D. (2006). *Eyes wide open: Looking for God in popular culture*. Grand Rapids, Michigan: Brazos Press.
- Wilkinson, D. (2000). *The power of the Force: The spirituality of the Star Wars Films*. Oxford: Lion.

Mae'r Parchedig Athro David Wilkinson yn Bennaeth Coleg St John's, Prifysgol Durham, ac mae'n addysgu yn yr Adran Diwinyddiaeth a Chrefydd. Mae ei waith ar hyn o bryd yn ymwneud â pherthynas diwinyddiaeth Gristnogol â diwylliant cyfoes, o wyddoniaeth i ddiwylliant poblogaidd. Mae ei gyhoeddiadau yn cynnwys Science, religion and the search for extraterrestrial intelligence, Oxford: Oxford University Press, 2013 a The power of the Force: The spirituality of the Star Wars films, Oxford: Lion, 2000.

Damcaniaeth Rhinwedd Aristotlys

Adam Willows

Mae'r erthygl hon yn trafod meddwl moesol Aristotlys, gan ganolbwyntio'n neilltuol ar natur rhinwedd ac ymddygiad rhinweddol. Mae'n ystyried Aristotliaid modern hefyd, a sut y caiff meddwl Aristotlys ei dderbyn gan rai traddodiadau crefyddol.

Cyswllt manyleb: CBAC RS3 ETH: Astudio Crefydd a Moeseg (A2), 1. Damcaniaeth Rhinwedd Aristotle.

Damcaniaeth rhinwedd a moeseg rhinwedd

Maes ymholiad athronyddol a diwinyddol yw damcaniaeth rhinwedd sy'n ymwneud ag ymchwilio a deall y rhinweddau. Mae'n wahanol i foeseg rhinwedd, damcaniaeth moeseg *normadol* sy'n gweld datblygiad a meddiant y rhinweddau fel prif amcan bywyd rhinweddol. Er bod moesegwyr rhinwedd hefyd yn ddamcaniaethwyr rhinwedd, mae llawer o ddamcaniaethwyr rhinwedd yn arddel damcaniaethau normadol eraill fel canlyniadaeth neu ddeontoleg (Hursthouse, 2013, rhan 1).

Mae gwreiddiau damcaniaeth rhinwedd a moeseg rhinwedd i'w cael yn athroniaeth glasurol Groeg, ac yn neilltuol gydag Aristotlys. Collodd y rhinweddau eu hamlygrwydd mewn damcaniaeth moeseg ar ôl yr Oleuedigaeth, a hyd at ganol yr ugeinfed ganrif ychydig iawn o le oedd iddyn nhw mewn trafodaethau modern ar foeseg. Ers hynny, sut bynnag, bu cynnydd yn y diddordeb mewn rhinweddau, ac yn awr

fe fydd gan y mwyafrif o ddamcaniaethau moeseg rywbeth i'w ddweud am rinwedd, hyd yn oed os nad hynny yw eu prif ffocws. Cafodd statws moeseg rhinwedd, fel damcaniaeth normadol ar wahân, ei sicrhau gan feddylwyr fel Rosalind Hursthouse a Philippa Foot. Mewn moeseg Gristnogol, fe arweiniodd Alasdair MacIntyre a Stanley Hauerwas ail-ddarganfyddiad rhinwedd ac mae cryn diddordeb o'r newydd yn namcaniaeth moeseg Thomas Aquinas, sydd yn rhannu llawer o nodweddion tebyg i rai Aristotlys.

Beth yw rhinwedd?

Dywed Aristotlys wrthym, mai tuedd bwriadus yw rhinewdd - [virtue is] 'a *purposive disposition*' (Aristotle, 2004, 1107a 1). Mae hyn yn golygu ei fod yn fath neilltuol o nodwedd cymeriad: tuedd benodol i weithredu a theimlo mewn ffordd neilltuol. Mae'n bwysig bod y duedd yn sefydlog a chyson - ni fyddai un sy'n gybydd rhonc a gyfrannodd arian ar siawns, o wneud hynny, yn meddu ar

Damcaniaeth Rhinwedd Aristotlys

y rhinwedd o fod yn hael. Ond am ba *fath* o duedd sefydlog yr ydym yn sôn? Fyddai tuedd i ddwyn yn sicr ddim yn gymwys. Na chwaith, er yn ddiniwed, y bydd yr hoffter di-baid o yfed paneidiau o de. Dywed Aristotlys mai rhagoriaeth ddynol yw rhinwedd. Dyma'r duedd a wna i un fod yn ddyn da a bod yn achos iddo gyflawni ei swyddogaeth yn dda. [*It is*] 'the disposition which makes one a good man and causes him to perform his function well' (Aristotle, 2004, 1106a 20-25).

Er mwyn deall hyn, mae'n ofynnol i ni wybod sut un fyddai'r person da, gweithredol. Mae'r syniad bod bodau dynol yn meddu ar swyddogaeth neilltuo yn hanfodol i ddamcaniaeth rhinwedd Aristotlys. Mae'n credu bod gan bopeth swyddogaeth – rhywbeth y mae yno ar *ei gyfer*, i bwrpas. Trwy ddeall beth yw pwrpas rhywbeth neu beth yw i fod, y gallwn ddeall beth yw ei *werth*. Er enghraifft, swyddogaeth cylllell yw torri pethau'n effeithlon. O wybod hyn gallwn adnabod cylllell dda pan welwn un – mae'n finiog, heb fod yn rhy drom, ac ati. Yn yr un modd, rydym yn sylweddoli bod cylllell ddi-fin yn gyllell sâl oherwydd ni fydd yn cyflawni ei swyddogaeth. Felly os gallwn ddeall beth yw swyddogaeth bodau dynol, byddwn yn gallu adnabod person da a deall pa fath o dueddiadau yw'r rhinweddau.

Dywed Aristotlys mai gweithredu'n rhesymol yw swyddogaeth y ddynoliaeth. Dyma'r un peth y mae a bodau dynol yn ei wneud, na wna phethau na chreaduriaid eraill. Y rhinweddau yw'r tueddiadau sy'n ein cymell i gyflawni ein swyddogaeth yn dda - i fyw'n rhesymol.

Golyga hyn i Aristotlys, wrth alw rhywun yn berson da, nad yw hynny'n unig yn golygu eu bod yn gwneud yr hyn y dylen nhw fod yn ei wneud o safbwynt rheidrwydd moesol (er ei fod yn golygu

hynny). Mae'n golygu hefyd eu bod yn dda am *fod* yn berson - trwy fod yn rhinweddol maen nhw'n cyflawni eu swyddogaethau'n dda – ac mai meddu ar y swyddogaeth hon sy'n eu hamlygu fel person o gwbl.

Mae cyflawni eich swyddogaeth hefyd yn beth da i chi. Mae Aristotlys yn clymu'r syniad o beth sy'n dda *i'w wneud* i'r syniad o'r hyn sy'n dda *ar ein cyfer*. Nid yw bywyd llewyrchus yn golygu bywyd o ymddygiad moesol cywir yn unig. Mae hefyd (os yw amgylchiadau'n caniatáu) yn fywyd cyflawn, ac yn stad o les – mewn gair, hapusrwydd. Y gair Groeg am hyn yw *eudaimonia*. Mae *eudaimonia* yn air pwysig iawn ym moeseg Aristotlys ac nid oes ystyr cyfatebol unionyrchol mewn Saesneg na Chymraeg. Caiff ei gyfieithu'n aml fel 'hapusrwydd', ond ni ddylid ei ddeall yn syml fel pleser hedonistaidd (Hursthouse, 1999, tt. 9-10). Mae'n fath ar lewyrch neu gyfanrwydd. Bywyd *eudaimon* yw'r math o fywyd y dylai bodau dynol ei gael, y math gorau o fywyd i berson. Yn annhebyg i bleser, nid yw'n oddrychol oherwydd mae'n berthnasol i'r pwrpas y mae pob bod dynol yn ei rannu. Nid rhinwedd yw'r unig beth sydd ei angen ar gyfer *eudaimonia*, oherwydd mae'n anodd os nad yn amhosib gwneud gweithredoedd da heb adnoddau, '*it is difficult if not impossible to do fine deeds without any resources*' (Aristotle, 2004, 1099a 30-35). Nid yw'n bosib, fodd bynnag, cyflawni *eudaimonia* heb rinwedd.

Felly rydym yn gwybod pa fath o dueddiad yw rhinwedd. Mae'n dueddiad a fydd yn arwain at *eudaimonia*, un sy'n golygu fod y sawl sy'n meddu arno'n meddwl ac yn gweithredu mewn ffordd resymol. Ond nid yw hyn yn ymddangos yn ddigon ar gyfer damcaniaeth foisol. Yr hyn y mae moeseg ei wir angen yw

Damcaniaeth Rhinwedd Aristotlys

ffordd o ddweud pa agweddau yw'r rhain. Pa fath o ymddygiad ac agwedd sy'n wir rinweddol? A yw hunanaberth bob amser yn beth da? A all dweud anwiredd weithiau fod y ffordd ymlaen? Sut ddylen ni drin a thrafod ein harian? Yn y ddwy ran nesaf byddwn yn ystyried y modd y mae Aristotlys yn delio â'r math yma o gwestiynau.

Rhinweddau deallusol a moesol

Y cam cyntaf wrth geisio ateb y cwestiwn hwn yw'r gwahaniaeth rhwng rhinweddau deallusol a moesol. Mae'n amlwg nad oes gan bob tueddiad rhesymol ddimensiwn moesol cynhenid (e.e. gallu artistig), er ei fod i'w weld yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer rhinwedd. Dyma beth a ddywed Aristotlys am y gwahanol fathau o rinwedd: *'Now when we classified the virtues of the soul we said that some of them were virtues of the character and others of the intellect'* (Aristotle, 2004, 1138b 30 - 1139a 5). *Rhinweddau'r cymeriad* yw'r rhinweddau moesol. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel cyfiawnder, dewrder a haelioni. Mae *rhinweddau'r deall* yn ymwneud â'r meddwl, ac yn cynnwys pethau fel gwybodaeth wyddonol, gallu artistig a doethineb. Bydd trafodaeth foesegol yn ymwneud yn bennaf â rhinweddau moesol. Yr unig eithriad yw'r hyn y mae Aristotlys yn ei alw'n *ddoethineb ymarferol*, neu ochelgarwch. Mae person call yn meddu ar y gallu i ystyried yn gywir yr hyn sy'n dda ac o fantais iddo'i hun - *[A prudent person has the ability] 'to deliberate rightly about what is good and advantageous for himself'* (Aristotle, 2004, 1140a 25-30). Fe fydd gan rywun sydd â rhinwedd foesol y tueddiad cywir; er enghraifft, fe fyddan nhwt eisiau bod yn deg, gonest a charedig. Gochelgarwch sy'n dangos i ni *sut* i fod

yn deg, yn onest ac yn garedig ym mhob sefyllfa. Er mai un o rinweddau'r deall yw hon, mae'n hanfodol i'r modd y mae rhinweddau moesol yn gweithio'n gywir. Mae bod yn hollol rinweddol yn gweithredu ar ein tueddiadau, felly heb ochelgarwch i'n harwain ni fydd yn bosib bod yn rinweddol o gwbl.

Athroniaeth y cymedr

Rhan bwysig arall o'r bywyd moesol yw'r gallu i amcangyfrif y 'cymedr'. Mae Aristotlys yn meddwl bod pob rhinwedd yn gorwedd ar y cymedr rhwng dau ddrygioni (arferion cymeriad drwg). Am bob rhinwedd, mae drygioni o ormodedd a drygioni o ddiffyg. Bydd *drygioni o ormodedd* yn digwydd pan fydd rhywun â gormod o'r teimlad neu'r dymuniad sy'n berthnasol i sefyllfa, a bydd *drygioni o ddiffyg* yn digwydd pan fydd rhy ychydig. Felly, ar gyfer rhinwedd dewrder, efallai mai byrbwylltra fyddai'r drygioni o ormodedd, ac mai ofnusrwydd neu lwfrdra fyddai'r drygioni o ddiffyg. Mae dewrder yn ymwneud â thueddiad o deimlo tua'r un cydbwysedd o ofn a hyder.

Nid yw'r cymedr rhinweddol o reidrwydd yn union yn y canol rhwng y ddau ddrygioni; na chwaith bob amser yn yr un safle rhyngddyn nhw. Mae'r man y lleolir y cymedr yn dibynnu ar y sefyllfa. O bosib byddai'n iawn i filwr, wrth wynebu anawsterau llethol, deimlo'n ofnus i'r pwynt o ffoi; byddai milwr ar yr ochr gyferbyn a deimlai'r un faint o ofn yn llwfrgi. Dyma sut y mae Aristotlys yn ei grynhoi:

To have these feelings at the right times on the right grounds towards the right people for the right motive and in the right way is to feel them to an intermediate, that is to the best,

Damcaniaeth Rhinwedd Aristotlys

degree; and this is the mark of virtue.
(Aristotle, 2004, 1106b 20-25)

Gwneud penderfyniadau moesol

Mae modd gweld yn awr sut y mae moeseg rhinwedd yn cyrraedd at gwestiynau moesol ymarferol. Daw'r angen i nodi'r cymedr, ac i weithredu mewn ffordd ochelgar, at ei gilydd i gynhyrchu moeseg sefyllfa-sensitif uchel. Golyga hyn ei bod hi'n aml yn amhosib i foesegwyr rhinwedd roi ateb cyffredinol i gwestiwn moesol. Fe fydd yn ofynnol iddo wybod am y cyd-destun, pwy sy'n cymryd rhan, beth yw eu cymhelliad, ac yn y blaen. Dim ond ar ôl hynny y mae'n bosib amcangyfrif y cymedr a deall y ffordd ochelgar o weithredu. Mae hyn yn golygu nad yw moeseg rhinwedd o reidrwydd yn darparu canllaw i weithredu; yn hytrach, mae'n ein hannog i ddatblygu'r sgiliau a'r tueddiadau sydd eu hangen i fod eisiau, a phenderfynu ar y ffordd iawn o weithredu ym mhob amgylchiad. Gwneir hyn trwy adeiladu'r arferion cywir; dysgu oddi wrth a thrwy efelychu pobl rinweddol; ac yn y diwedd ddeall sut i ddod o hyd i'r ffordd iawn ein hunain.

Damcaniaeth rhinwedd mewn cyd-destunau eraill

Mae'r mwyafrif o foesegwyr rhinwedd heddiw yn perthyn i'r hyn sy'n cael ei alw yn *Neo-Aristotliaid*. Maen nhw'n rhannu llawer o safbwyntiau Aristotlys, ond yn gwahaniaethu mewn rhai ffyrdd allweddol. Yn aml, bydd Neo-Aristotliaid yn ymwrthod â, neu'n addasu, syniad Aristotlys bod swyddogaeth neilltuol ar gyfer bodau dynol. Er bod hyn yn caniatáu iddyn nhw osgoi gwneud honiad dadleuol am y natur ddynol, maen nhw'n wynebu'r broblem o egluro sut y maen nhw'n gwybod mai

rhinweddau yw'r arferion gorau i bawb os nad oes un swyddogaeth unigol y mae'r cyfan yn eu gwasanaethu. Mae rhai, fel Philippa Foot, yn ymdrin â'r broblem trwy ddadlau bod dirnadaeth wyddonol o natur ddynol yn rhoi rheswm da i ni gredu bod arferion neilltuol yn bodoli (e.e. rhyngweithio cymdeithasol) sy'n cyfrannu at ein llwyddiant (Foot, 2001, tt. 44-45).

Fel sydd wedi ei grybwyll uchod, nid yw damcaniaeth rhinwedd wedi ei chyfyngu i foesegwyr rhinwedd fel Aristotlys. Gall rhinwedd chwarae rhan hanfodol mewn damcaniaethau normadol eraill, ac mae'n gwneud hynny hefyd. Mae llw o amrywiaethau yn y modd y mae rhinwedd yn cael ei thrin a'i thrafod; sut bynnag, yr hyn sy'n nodweddiadol yn eu gwahaniaethu oddi wrth foesegwyr rhinwedd go iawn yw eu bod yn darostwng rhinwedd i egwyddor foesol fwy sylfaenol. Mae *dulliau Kantian* fel rheol yn gweld rhinwedd fel nodwedd sy'n ein galluogi i weithredu yn unol â'r gorchmynnol pendant (Louden, 1986, tt. 473-489). Yn yr un modd, bydd damcaniaethau rhinwedd *ôl-ddilydol* fel rheol yn disgrifio rhinwedd fel nodwedd fydd yn cynhyrchu mwy neu'r mwyaf o ganlyniadau da (Bradley, 2005, tt. 282-298).

Safbwynt crefyddol ar ddamcaniaeth foesegwyr Aristotlys

Mae moeseg Aristotlys yn rhannu llawer iawn â rhai moesegau crefyddol. Yn neilltuol, mae traddodiad Cristnogol cryf o foesegwyr rhinwedd wedi ei ganoli o gwmpas Aquinas, sydd â damcaniaeth foesegwyr yn tynnu'n helaeth oddi ar syniadau Aristotlys. Mae rhai syniadau cyffredinol yn cynnwys pwysigrwydd cymeriad i foesegwyr, a'r syniad bod amcan neilltuol i fywyd dynol. Er hynny, gall rhai rhannau o ddamcaniaeth foesol

Damcaniaeth Rhinwedd Aristotlys

Aristotlys anghytuno â'r safbwynt crefyddol. Mae Aristotlys yn meddwl bod *eudaimonia* - llwyddiant - yn gyfyngedig i'r bywyd hwn, a bod cyrraedd *eudaimonia* cyflawn yn ymarferol amhosib. Nid yw hyn yn ffitio'n dda â'r syniad o gael hyd i gyflawniad mwn bywyd ar ôl marwolaeth. Caiff dealltwriaeth gywerth Aquinas o'r daioni dynol, a elwir *beatitudo*, ei dorri'n ddwy ran - un amherffaith y gellir ei chael yn y bywyd hwn, a'r ail fersiwn berffaith na all ond Duw ei rhoi yn y bywyd nesaf.

Gwahaniaeth dichonadwy arall rhwng Aristotlys a moeseg rhinwedd grefyddol yw'r un sy'n ymwneud â swyddogaeth

bodau dynol. Mae'r syniad bod gan fodau dynol swyddogaeth neilltuol yn cyd-fynd yn well ag ambell safbwynt crefyddol na gyda Neo-Aristotliaeth, ond efallai bod gwahaniaeth ynghylch *beth* yw'r swyddogaeth. Mae damcaniaeth rhinwedd grefyddol yn debygol o weld swyddogaeth bodau dynol fel rhodd gan Dduw, ac wedi ei chyfeirio at Dduw. Nid yw hyn o reidrydd yn eithrio honiad Aristotlys bod ein swyddogaeth yn weithred resymol, ond â ymhellach - ystyrir gweithred resymol ei hun fel y math o weithred neu gymeriad fydd yn ein harwain at Dduw.

Geirfa

hedonistic - *hedonistaidd*: (yma) corfforol, boddhad cnawdol.

normative theories - *damcaniaeth normadol* yw damcaniaethau

ynghylch sut y dylai pobl weithredu, wedi ei sylfaenu ar safonau ('normau').

Cysylltau rhyngwyd

<http://www.iep.utm.edu/aristotl/#H7>
(Bywgraffiad ar Aristotlys ac asesiad o'i feddyliau, yn cynnwys ei foeseg)

<http://plato.stanford.edu/entries/aristotle-ethics/> (Cofnod defnyddiol iawn gydag ymdriniaeth fanylach o foeseg Aristotlys)

<http://www.newadvent.org/cathen/15472a.htm> (Trafodaeth ar rinwedd o safbwynt Pabyddol)

Pwyntiau trafod

1. Pa fathau o nodweddion y credwch chi fyddai'n gymwys i fod yn rhinwedd, a pham?
2. A ddylai damcaniaeth foeseg allu cynnig atebion cyffredinol i gwestiynau fel , 'A yw'n oddefadwy weithiau i ddweud anwiredd?'
3. A yw'r syniad bod gan fodau dynol swyddogaeth neilltuol yn gwneud synnwyr mewn gwirionedd?
4. Mae Aristotlys yn credu os ydym yn anlwcus, fe allen ni golli'r cyfle i brofi *eudaimonia* heb fod dim bai arnom ein hunain – er enghraifft, trwy ddiodeff trasiedi ofnadwy sydd yn ein rhwystro rhag bod yn gyflawn byth. A oes gan rywun fel hyn reswm da i ddatblygu'r rhinweddau? Sut byddai safbwynt crefyddol yn gwneud gwahaniaeth i'ch ateb?

Cyfeiriadau

- Aristotle (2004). *Nicomachean ethics*. Eds. H. Tredennick & J. Barnes, trans. J.A.K. Thomson. London: Penguin.
- Bradley, B. (2005). Virtue consequentialism. *Utilitas*, 17, 282-298.
- Foot, P. (2001). *Natural goodness*. Oxford: Oxford University Press.
- Hursthouse, R. (1999). *On virtue ethics*. Oxford: Oxford University Press.
- Hursthouse, R. (2013). Virtue ethics. In *The Stanford Encyclopedia of Philosophy*. Ed. E.N. Zalta (Fall 2013 Edition). <http://plato.stanford.edu/archives/fall2013/entries/ethics-virtue/> .
- Louden, R.B. (1986). Kant's virtue ethics. *Philosophy*, 61, 473-489.

Mae Adam Willows ar hyn o bryd yn astudio am radd Doethur mewn diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Durham. Canolbwynt ei ymchwil yw'r gwahaniaeth rhwng moeseg rhinwedd seciwlar a diwinyddol a sut y maent yn ymateb i feirniadaeth. Mae ganddo ddiddordeb hefyd mewn bio-foeseg, rhydd ewyllys ac achosiaeth. Mae'n awdur papur sydd ar fin cael ei gyhoeddi ynghylch eglurhad Awstin Sant ar darddiad drygioni.

Ffydd, Rheswm a Datguddiad

Gerard Loughlin

Mae'r erthygl hon yn gwahaniaethu dau safbwynt ar y berthynas rhwng ffydd a rheswm, fel y cawsant eu hegluro gan Karl Barth a Thomas Aquinas, ac mae'n ystyried yr hyn y gall rheswm oddi mewn i ffydd ei olygu.

Cyswllt manyleb: CBAC RS3 PHIL: Astudio Athroniaeth Crefydd (A2), 1. A yw ffydd grefyddol yn rhesymol?

Ffydd yn groes i reswm

Mae llawer o bobl yn tybio bod ffydd a rheswm yn cyferbynnu â'i gilydd. Ffydd yw cred mewn rhywbeth heb reswm. Cred yn yr hyn nad yw'n weladwy, 'sicrwydd o bethau na ellir eu gweld' (Hebreaid 11:1). Os oes gennych resymau dros yr hyn a gredwch nid ffydd yw hynny, fel yr oedd yr athronydd Søren Kierkegaard (1813-55) yn ei addysgu. Ceir safbwynt tebyg yng ngwaith y diwinydd o'r ugeinfed ganrif, Karl Barth (1886-1968). Mae Barth yn datgan na all cred yn Nuw ddibynnu ar reswm dynol, ond ar air Duw yn unig. Naid yw ffydd, ond naid sy'n cael ei hannog gan Dduw.

I Barth, mae rheswm dynol yn ffaeledig ac yn chwannog i hunan-les. Mae unrhyw Dduw y mae rheswm yn ei ddarganfod yn Dduw sydd wedi ei lunio ar ddelwedd dynolryw. Mae ef yn ymestyniad o'r 'eisiau' dynol, o anghenion a dymuniadau dynol; ac mae Duw bron bob amser wedi cael ei gyflwyno fel 'ef' yn hytrach na 'hi'. Ni all

rheswm gael hyd i'r gwir Dduw, sydd yn unig yn dadlennu'r Duwdod i ni. Nid cynnyrch rheswm yw ffydd, ond cynnyrch datguddiad. Dyma syniad grymus iawn, ac fe gafodd ddylanwad ar lawer o feddylwyr Cristnogol yn ystod yr ugeinfed ganrif, yn neilltuol yn y traddodiad Diwygiedig (Calфинаidd). Cyrhaeddodd Barth ei hun at y safbwynt hwn yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf, ar ôl iddo gael ei siomi bod cymaint o'r rhai oedd wedi addysgu diwinyddiaeth iddo wedi cefnogi ymdrech ryfel yr Almaen. Yn achos Barth, roedd hyn yn enghraifft glir o sut mae rheswm dynol yn arwain at Dduw gau. Digwyddodd yr un peth unwaith eto yn yr 1930au, pan gefnogodd llawer o ddiwinyddion yr Almaen Adolf Hitler a'r Natsiaid.

Os dilynwn Kierkegaard a Barth byddwn yn meddwl bod ffydd yn groes i reswm. Ond mae'r safbwynt Cristnogol hwn yn eithriadol o debygol hefyd i safbwynt nifer o anffyddwyr. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dadleuodd

Ffydd, Rheswm a Datguddiad

Ludwig Feuerbach (1804-72) yn enwog bod Duw yn ymestyniad o'r dychymyg dynol, yn symbol o ddelfrydau dynol. Nid yw rheswm yn ein harwain ni at Dduw, ond at weld mai dychmygol yw Duw. Ni sy'n gwneud Duw yn hytrach na Duw sy'n ein gwneud ni. A dyma hefyd safbwynt rhywun fel y bywydegydd Richard Dawkins, sydd yn yr unfed ganrif ar hugain yn dadlau bod ffydd a rheswm yn groes i'w gilydd. Cytuna Kierkegaard a Barth gyda'r anffyddwyr hyn na all rheswm sefydlu tebyg i beth yw Duw, na bod Duw yn bod. Ond yn annhebyg i'r anffyddwyr, mae Kierkegaard a Barth yn meddwl bod Duw yn gallu dod wyneb yn wyneb â ni a'n drysu, a thrwy wneud hynny ddangos bod Duw yn bodoli. Mae Duw'n cyflawni hyn orau ym mherson Iesu Grist.

Ffydd yn ategu rheswm

Ond yn awr rhaid i ni gymryd cam yn ôl, gan mai dim ond rhai credinwyr a rhai anghredinwyr sy'n meddwl bod rheswm yn groes i ffydd. Mae un traddodiad o syniad Cristnogol arall, ac un hŷn, sy'n gweld ffydd a rheswm yn glos iawn at ei gilydd. Yng ngolwg y traddodiad hwn, mae ffydd yn gyfan gwbl resymol, ac yn wir yn fwy rhesymol na di-ffydd. Dyma safbwynt Sant Thomas Aquinas (1225-74) sydd, y gellir dadlau, y diwinydd mwyaf yn y traddodiad Pabyddol, ac a oedd yn meddwl amdano'i hun fel un a oedd yn dilyn Awstin Sant o Hippo ac, o'i flaen ef, Sant Paul.

Yn ôl Aquinas, nid yw ffydd a rheswm yn groes i'w gilydd ond yn gyflenwol, oherwydd bod y naill a'r llall yn deillio o Dduw. Rhodd gan Dduw yw ffydd, a rhodd gan Dduw hefyd yw rheswm, yn cyd-fynd â'r syniad bod Duw yn creu popeth sy'n bod. Yr hyn sy'n ein gwahaniaethu oddi wrth greaduriaid eraill y mae Duw yn eu creu yw ein gallu i

resymu. Yn llyfr Genesis fe ddywedir wrthym fod Adda ac Efa wedi cael eu creu ar 'ddelw Duw' (1:26-27). Tra bo llawer wedi trafod beth y gall hyn ei olygu, y safbwynt pwysicaf, a'r un yr oedd Aquinas yn ei choleddu, yn sicr, yw ei fod yn cyfeirio at ein gallu i resymu, sef yr hyn sy'n ein gwneud yn ddynol, ac nid rhyw fath arall o anifail. Felly gan Dduw y rhoddir rheswm, a phan fyddwn yn resymu rydym rywfodd yn cyfranogi yn y modd y mae Duw ei hun yn resymu. Wrth gwrs nid Duw ydym ni, ac mae rhesymu Duw yn wahanol i'n rhesymu ni: felly mae Duw yn gwybod popeth ar unwaith, tra rydym ni yn gorfod dysgu dros amser, ac fe fyddwn ni'n cael pethau'n anghywir. Ond pan fyddwn ni'n gwybod pethau'n iawn, fe fyddwn ni'n gwybod yr hyn y mae Duw yn eu gwybod. Ond rydyn ni'n gwybod am y pethau hynny yn ffordd y byddai creaduriaid yn gwybod, ac nid yn y ffordd y mae eu creawdwr yn eu gwybod, sef yr un sy'n eu hadnabod yn fwy perffaith nag y bydden nhw'n gallu adnabod eu hunain.

Efallai nad yw rhesymu Aquinas yn ddarbwyllol, ond rhaid i ni gydnabod yn ei achos ef a'r rhai sy'n ei ddilyn, na all ffydd a rheswm fod yn groes i'w gilydd. Ond mae gwahaniaeth o hyd rhwng ffydd a rheswm. Mae Aquinas yn addysgu fod modd cael gwybod am rai pethau trwy reswm - ac felly trwy reswm a ffydd - a rhai drwy ffydd yn unig. Mae rhai pethau y mae'n rhaid iddyn nhw gael eu datguddio os ydyn nhw i gael eu gwybod o gwbl, fel triundod Duw. Felly mae'r gwahaniaeth rhwng Aquinas a meddylwyr diweddarach fel Kierkegaard a Barth yn ei hanfod yn ddadl ynghylch yr hyn y gallwn ei wybod am Dduw trwy reswm a thrwy ffydd. Allwn ni wybod bod Duw yn bod ar sail rheswm, neu a oes raid i ni'n gyntaf gael ffydd? Mae Karl Barth yn tueddu i ddweud bod yn rhaid i

Ffydd, Rheswm a Datguddiad

ni gael ffydd yn Nuw cyn y gallwn wybod *bod* Duw yn bodoli; tra bo Aquinas yn tueddu i ddweud y gallwn wybod *bod* Duw yn bodoli cyn i ni ddod i arddel ffydd yn Nuw ac yn y pethau y mae Duw yn eu datguddio. Mae Aquinas a Barth yn tueddu i wahaniaethu ynghylch a allwn ni brofi - neu wrthbrofi - bodolaeth Duw. Nid yw Barth yn meddwl y gallwn wneud hynny, ac felly ar y pwynt hwn mae'n cytuno â'r anffyddwyr. Ond mae Aquinas yn tueddu i feddwl y gallwn ni wneud hynny, ac felly'n anghytuno â'r anffyddwyr a chyd-gristnogion fel Barth.

Aquinas a bodolaeth Duw

Ar ddechrau ei waith mawr olaf, y *Summa Theologiae*, nododd Thomas Aquinas bum ffordd y gellir dangos fod Duw'n bodoli (1a, 2, 3, ateb). Ond cyn trafod y rhain, byddai'n dda i ni nodi bod Aquinas yn eithaf cwta gyda'r hyn sydd wedi dod i gael ei adnabod fel y ddadl ontolegol dros fodolaeth Duw. Hon yw'r ddadl gaiff ei chyflwyno gan Sant Anselm o Gaergaint (1033-1109) ac sy'n datgan mai unwaith y deellir yr hyn y mae'r gair 'Duw' yn ei olygu, sef na ni ellir meddwl am unrhyw beth sy'n fwy na hynny, *[the word] 'God' [means] 'that than which nothing greater can be thought'* mae'n dilyn fod Duw'n bodoli. Mae Aquinas yn troi hyn heibio fel gwiriondeb, oherwydd hyd yn oed os mai hyn yw ystyr 'Duw' nid yw'n dangos fod Duw'n bodoli mewn ffaith, dim ond mewn meddwl (1a 2, 1, ateb 2). Felly dyna ben ar ddadl Anselm a phob un sydd wedi parhau i bendroni dros y ddadl hon!

Sut felly mae Aquinas yn defnyddio rheswm i'n cael ni at Dduw? Ym mhob un o'r pum ffordd mae'n cyfeirio at ryw agwedd ar y byd y byddwn i gyd yn ei brofi ac yn dadlau o'r effaith hwn hyd eithaf ei achos, i'r hyn y dylem ei dybio er mwyn gwneud synnwyr o'n profiad.

Rydym i gyd yn profi newid, ac yn gwybod bod pethau'n newid oherwydd eu newid gan eraill, a'r pethau hynny gan bethau eraill eto, ac yn y blaen. Ond rhaid i ni ddychmygu – fel y dywed Aquinas – peth cyntaf sydd heb ei newid gan unrhyw beth arall, a dyma'r hyn y mae pawb yn ei ddeall yw Duw- *[a first thing that is not changed by anything else, and] 'this is what everyone understands by God'*. Fersiwn o'r cyntaf yw'r ail ffordd, ond yn hytrach na chyfeirio at newid, mae Aquinas yn syml yn nodi fod popeth yn cael ei achosi gan ryw beth arall, a rhaid i ni feddwl bod yna achos cyntaf, neu ni fuasai cadwyn o achos ac effaith o gwbl, a'r achos cyntaf hwn yw'r hyn y mae pawb yn ei olygu yw Duw.

Mae'r drydedd ffordd ychydig yn fwy dyrys. Mae Aquinas yn nodi nad oes raid i rai pethau fod, maen nhw'n ymddangos ac yn diflannu ac mae eu hymddangosiad, fel y byddem yn dweud, yn amodol neu'n ddamweiniol. Ond nid yw popeth fel hyn; nad efallai wedi bod. Oherwydd os byddai popeth fel hyn, yna ni fyddai dim wedi bod. Felly rhaid i ni ddychmygu - fel y dywed Aquinas - rhywbeth yr oedd rhaid, rhywbeth angenrheidiol wedi achosi bod yr holl bethau dianghenraid yn bodoli. Gallwn feddwl hefyd bod y bedwaredd ffordd yr un mor ddyrys. Yn awr mae Aquinas yn cyfeirio at y ffaith bod rhai pethau yn berffeithiach na phethau eraill, a phan fydd graddoli'n digwydd yn achos perffeithrwydd, mae'r hyn sydd fwyaf perffaith yn bodoli; er enghraifft, yr hyn sydd fwyaf da – sef daioni ei hun - a dyna'r hyn y mae pawb yn ei alw'n Dduw.

Yn olaf – y bumed ffordd – mae Aquinas yn nodi fod gan bopeth amcan. Mae'r fesen yn amcanu i dyfu'n dderwen; y saeth yn amcanu i gyrraedd ei tharged. Ond fe wna'r saeth hynny'n unig

Ffydd, Rheswm a Datguddiad

oherwydd bod yno saethwr sy'n anelu'r saeth at y targed. Felly hefyd yn achos y fesen, rhaid i ni dybio bod yr hyn sy'n amcanu iddi dyfu'n dderwen, a'r peth hwnnw – sydd â bwriad, fel y saethwr – yr ydym ni'n ei alw'n Dduw.

Rheswm ffyddlon?

A yw Aquinas wedi defnyddio rheswm i ddangos fod Duw yn bodoli? A yw wedi cael gwared â'r angen am ffydd? Mae ei ddadleuon, ynghyd â dadleuon yn perthyn i eraill, wedi cael eu trafod am amser hir. Ond efallai y gallen ni sylwi, er bod Aquinas yn cyfeirio at ein profiad o'r byd, mae'n cyfeirio o ddifrif at rai o'r cysyniadau sylfaenol y byddwn yn eu defnyddio pan fyddwn yn meddwl am y byd - newid, achosiad, amodoldeb, perffeithrwydd a phwrpas - ac yn dweud bod pob un o'r rhain yn awgrymu egwyddor waelodol - achos cyntaf neu fod angenrheidiol - ac mai'r egwyddorion hyn, yw'r hyn y mae pobl yn ei olygu yw Duw. Felly gallwn feddwl hyd yn oed os yw'r dadleuon yn gweithio, dim ond syniad haniaethol o Dduw y maen nhw'n ei sefydlu. Ydyn nhw'n sefydlu Duw ffydd, y Duw - fel yr oedd Aquinas yn ei gredu - a siaradodd â Moses o'r berth a oedd yn llosgi, ac a ddaeth yn ymgnawdoledig yn Iesu Grist?

Yn y rhan nesaf un o'r *Summa Theologiae*, dadleua Aquinas er y gallem wybod trwy reswm *bod* Duw yn bodoli, ni allwn wybod *beth* yw Duw. Yn wir, fe ddywed Aquinas mai'r unig beth y gallwn ni ei wybod yw yr hyn nad yw Duw. Er mwyn adnabod Duw mewn ffordd amgenach na'r un negyddol (nid yw Duw y peth hwn, ac nid yw Duw y peth arall) mae'n rhaid i ni adnabod Duw trwy ffydd. Rhaid i ni adnabod Duw trwy hunan-ddatguddiad Duw yn stori Israel, ym mherson Iesu, yn nysgeidiaethau'r Eglwys, ac mewn gweddi bersonol ac

addoliad personol yn y traddodiad sy'n tystio i ddatguddiad Duw. Fel hyn fe allen ni ddechrau tybio nad yw Aquinas a Barth ymhell iawn oddi wrth ei gilydd. Efallai bod Aquinas yn fwy positif na Barth ynghylch yr hyn y gall reswm ei wneud, ond yr hyn a wna, fe wna hynny oddi mewn i ffydd. Mae rheswm yn caniatáu i gredinwyr feddwl yn gliriach am yr hyn y maen nhw'n credu ynddo, sef - fel y mae Aquinas yn meddwl - achos anweledig popeth, y dirgelwch anweledig a elwir yn Dduw. Nid yw ffydd yn groes i reswm pan yw rheswm yn ffyddlon.

Mae hyn yn ein hatgoffa o'r ffaith fod yr hyn yw rheswm yn ddibynnol ar y cyd-destun y caiff ei ddefnyddio ynddo, ac mae'n cael ei ddefnyddio bob amser oddi mewn i gyd-destun. Gall y gallu i resymu - i feddwl sut i ddatrys problem, i wneud dadl - fod yn allu cyffredinol, gall hyd yn oed fod yr hyn sy'n ein gwneud yn ddynol, er mae'n amlwg bod anifeiliaid eraill yn gallu meddwl am broblemau a'u datrys. Ond pan fyddwn ni'n rhesymu fe fyddwn ni'n gwneud hynny o fewn sefyllfa neilltuol, grŵp neu sefydliad neilltuol, traddodiad neu ddisgyblaeth o feddwl. Rydym wedi dysgu - i raddau helaeth, neu i raddau llai - beth sy'n cael ei gyfrif yn rhesymu da neu ddrwg yn y cyd-destunau hynny, ac rydym wedi gwneud hynny oherwydd bod eraill wedi cymeradwyo neu wedi anghymeradwyo'r hyn rydym wedi ei wneud a'i ddweud. Gweithgaredd cymdeithasol yw rhesymu, a dyna paham y mae meddylwyr gwreiddiol mor brin, oherwydd maen nhw'n bobl sy'n darganfod neu'n dyfeisio ffyrdd newydd o resymu am y byd, ac am resymu ei hun, y tu hwnt i'r hyn sy'n gymdeithasol resymol. Oherwydd bod rhesymu'n gymdeithasol a chyd-destunol, dyna sy'n cyfrif bod rhywbeth sy'n gwneud synnwyr i rai yn methu â

Ffydd, Rheswm a Datguddiad

darbwylllo eraill. Mae ffydd a rheswm yn groes i'w gilydd pan yw'r rheswm dan sylw heb gael ei ffurfio oddi mewn i ffydd, pan mae ganddo ragdybiaethau gwahanol. Ond nid yw hyn yn golygu nad oes rheswm oddi mewn i ffydd, neu hyd yn oed na all rhywun heb ffydd ddod i

ddeall y rheswm oddi mewn i ffydd, a *vice versa*, oherwydd mae pob rhesymu oddi mewn i'r cyd-destun o fod yn ddynol; sydd yn achos ffydd yn y cyd-destun o fod yn greadur sy'n perthyn i'r creawdwr sy'n rhoi i ni reswm i gredu.

Cyswllt rhyngrwyd

<http://www.iep.utm.edu/faith-re/>
(*Internet Encyclopedia of Philosophy*): James Swindal's historical overview of the

interrelation of religious faith and reason)

Pwyntiau trafod

1. Ystyriwch rai o'r gwahanol ffyrdd y bydd pobl yn apelio at 'reswm' a 'rhesymoldeb' oddi mewn yn ogystal â thu allan i grefydd.
2. A oes angen rheswm ar ffydd, ac a oes angen ffydd ar reswm? Pam?
3. A yw dadleuon dros fodolaeth Duw – fel pum ffordd Aquinas – yn cyflawni pwrpas, hyd yn oed nad ydyn nhw'n profi bodolaeth Duw?

Ar ôl treulio cyfnod byr fel athro chweched dosbarth, bu'r Athro Loughlin yn addysgu astudiaethau crefyddol ym Mhrifysgol Newcastle, cyn ymuno ag Adran Diwinyddiaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Durham yn 2004. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys Telling God's Story: Bible, church and narrative theology, Cambridge: Cambridge University Press, 1999.

Disgrifio Duw

Jeff Astley

Mae'r erthygl yn trafod y ddau brif fath o iaith grefyddol ddisgrifiadol: iaith gyfatebol ac iaith drosiadol. Rhoddir sylw hefyd i'w statws 'symbolaidd' ac i'r dadleuon dros drin ambell ran o ddiwinyddiaeth yn ddiamwys.

Cyswllt manyleb: CBAC RS3 PHIL: Astudio Athroniaeth Crefydd (A2), 2. A yw iaith crefydd yn ystyrllon?

Y defnydd a wneir o iaith crefydd

Mae sawl swyddogaeth i iaith crefydd, a'r un fwyaf arwyddocaol o bosib yw ei swyddogaeth 'wybyddol' (yn y cyddestun hwn, ffeithiau sy'n cadarnhau neu'n gwadu) o wneud datganiadau am y dwyfol, siarad *am* natur Duw a'i weithgaredd. Ar ei gwedd fwyaf sylfaenol, y 'siarad hwn am Dduw' yn syml yw 'diwinyddiaeth'.

Ond fe all hyd yn oed yr iaith ddisgrifiadol hon gyflawni swyddogaethau eraill, er enghraifft wrth fynegi agwedd, cred neu emosiwn crefyddol; ymrwymo'r siaradwr i ffordd o fyw grefyddol neu i ddyletswydd grefyddol neu foesol; ac ennyn profiad crefyddol. (Mae athronwyr yn galw'r rhain yn swyddogaethau 'an-wybyddol'.) Yn achos rhai agweddau ar iaith crefydd - yn enwedig mewn gweddïau, cytganau ac emynau - fe all y swyddogaethau hyn fod yn sylfaenol. Er hynny, mae'r rhan

fwyaf o gredinwyr yn haeru na allwch chi fynegi eich ymddiriedaeth eich hunan yn Nuw, na'ch diolchgarwch iddo heb ragdybio bod y Duw hwn yn bodoli mewn gwirionedd '*without presupposing that this God exists in fact*' (Brümmer, 1981, t. 268).

Y broblem o ddisgrifio Duw

Mae llawer o'r feirniadaeth sy'n cael ei hanelu at ddiwinyddiaeth yn codi oherwydd, er bod iddi ystyr wybyddol, nid yw ei hystyr bob amser yn glir. Mae credinwyr yn ymateb trwy ddweud bod hynny'n anochel oherwydd maen nhw, wrth siarad am y Duw greawdwr rhyfeddol, tragwyddol, yn defnyddio iaith bodau dynol – a ddatblygwyd i ddisgrifio ein byd meidrol, a grëwyd – ac yn cymhwyso hynny i deyrnas sy'n 'tra-rhagori' ar (sy'n fwy a thu draw i) natur, bywyd a gweithredoedd bodau dynol. Gan hynny, dyna sut roedd lan Ramsey'n dadlau nad yw honiadau

Disgrifio Duw

crefyddol yn gweithio fel disgrifiadau plaen o ffeithiau sy'n darlunio Duw fel mewn llun neu ffotograff mewn unrhyw fodd plaen a llythrennol – *religious assertions do not function as 'plain descriptions of fact', which describe God in a 'picturing' or 'photographic' manner in any 'plain and literal sense'* (Ramsey, 1961, t. 1; 1963, tt. 63-65; 1971, adran 22). Yn hytrach, maen nhw'n cynrychioli natur Duw trwy ddefnyddio trosiadau a modelau.

Mathau o iaith grefyddol ddisgrifiadol

Cyfatebiaeth neu gydweddiad

Mae llawer o ddiwinyddion yn dilyn Thomas Aquinas wrth wahaniaethu dau fath o 'siarad am Dduw':

- cymhwysiad *llythrennol* o eiriau i Dduw, lle mae geiriau neu ymadroddion yn cael eu defnyddio'n bennaf mewn ystyr gymwys, fel cyfatebiaethau: e.e. 'da' a 'byw';
- defnydd *ffigurol* (heb fod yn llythrennol), lle mae'r termau sy'n cael eu cymhwyso i Dduw yn mynd yn llawer pellach na'u hystyron cyffredin, mewn 'ffigur ymadrodd': e.e. trwy ddefnyddio'r trosiadau 'craig' neu 'golomen'.

Mae'r ddadl ynghylch a ddylem ni siarad am Dduw'n llythrennol neu ddim ond yn ffigurol (neu'n symbolaidd) yn tueddu i anwybyddu honiad Aquinas mai ffurf ar iaith llythrennol yw cyfatebiaeth. Cytunai Aquinas nad yw'n bosib cymhwyso ein geirfa ddaearol i Dduw yn yr union ffordd ag y maen nhw'n cael eu cymhwyso, er enghraifft, i bobl. Rhaid i'w hystyr gael ei ymestyn neu fod yn estynedig – ac felly'n gymwys. Tebygrwydd rhannol yw *cyfatebiaeth*. Wrth gymhwyso hyn i Dduw, nid yw'r

termau hyn ag ystyr sy'n hollol yr un fath wedyn â'r ystyr sydd iddyn nhw wrth ddisgrifio bodau dynol, ond maen nhw'n parhau i fod ag ystyr *debyg*. Dyma beth ddywed Aquinas: *[They] mean certain perfections without any indication of how these perfections are possessed – words, for example, like "being", "good", "living" and so on. These words can be used literally of God'* (Aquinas, *Summa Theologiae*, 1a, 13, 3).

Fe fyddwn ni'n defnyddio cyfatebiaethau pan fyddwn ni'n dweud bod anifeiliaid yn 'glyfar' (neu'n 'slei' neu'n 'swil'). Mae eich ci chi'n 'glyfar' mewn ffordd sy'n gymwys i gi, ond nid yn yr holl ffyrdd sy'n gymwys i fodau dynol. Mae *cydweddiad cymesuredd* rhwng dau ddefnydd gwahanol y gair, ac mae hyn gymwys yn achos Duw hefyd. Felly, mae Duw'n 'fyw' yn ffordd Duw ei hun - mewn ffordd sy'n gymwys i Dduw, *'in proportion to God'* - fel mae bodau dynol yn fyw mewn ffordd ddynol, a phlanhigion yn fyw mewn ffordd sy'n gymwys i fydd planhigion. Ond fe allwch chi barhau i ddweud bod planhigion 'o ddifrif' yn fyw, a bod eich ci 'o ddifrif' yn glyfar. Nid trosiadau yw'r rhain, fel pe byddech chi wedi disgrifio eich ci - neu eich athro - fel 'mochyn' neu ei ymddygiad yn 'folcanig', er enghraifft. Mae ystyron y geiriau *hynny* wedi eu hymestyn mor bell fel nad ydyn nhw bellach yn gymwys yn llythrennol.

Mae Brian Davies yn esbonio:

Someone might say, 'God is a mighty fortress'. We then ask, 'Is that really true? Is God made of stone, for example?' The answer will probably be: 'Of course not. I am speaking metaphorically.' . . . But suppose someone now says 'God is alive' or 'God is good'. Again we ask, 'Is that really true? Is he really alive and

Disgrifio Duw

good? Or are we now using a figure of speech?' (Davies, 1993, tt. 22–23)

[Aquinas] wants to say that when we speak of God analogically we are speaking in a literal way. If someone asked Aquinas 'Is God really wise' the answer would have been 'Yes'. . . In the case of God and creatures it is possible to apply the same terms to both in such a way that it does not have to mean entirely the same in both cases nor something so different that the result is just a metaphor. (Davies, 1985, t. 140)

Mae Aquinas ac eraill yn credu ei bod yn well o gryn dipyn defnyddio cyfatebiaeth wrth siarad am Dduw yn hytrach na throsiad, am ddau reswm.

- Mae cyfyngiadau materol wedi eu gwau i ystyron geiriau fel 'craig' a 'llew': *'it is part of the meaning of "rock" that it has its being in a merely material way. Such words can be used of God only metaphorically'* (*Summa Theologiae*, 1a, 13, 3).
- Mae'n haws bod yn fwy penodol gyda chyfatebiaethau na throsiadau. Fe fyddwn yn gwneud hyn trwy wahaniaethu eu *cynnwys cadarnhaol*, y nodweddion sy'n gyffredin rhwng eu cymhwysiad i Dduw a'u cymhwysiad i'r byd a grëwyd, a'u cynnwys negyddol y nodweddion sydd ddim yn gyffredin rhwng Duw a bodau dynol, dyweder (e.e. nid yw 'bywyd' Duw'n ymhlyg nac yn ymwneud â llawer o nodweddion bywyd biolegol fel tyfu, datblygu, anadlu, sensitifedd ac atgynhyrchiad). Heb rywfaint o fanyleb, fydden ni byth yn gallu defnyddio iaith am Dduw mewn dadl ddilys, oherwydd fydden ni ddim yn gwybod beth oedd yn cael ei olygu, a beth oedd ddim yn

cael ei olygu, wrth alw Duw'n 'ddoeth' neu'n 'gariadus'. Does bosib, fyddai dim o gwbl yn dilyn yr honiad bod 'Duw'n gariadus' oni bai ein bod yn gallu dweud rhywbeth am y ffyrdd y mae cariad Duw yn debyg i (ac yn annhebyg i) gariad dynol?

Er bod Aquinas ei hun wedi gwrthod y syniad ei bod yn bosib cymhwyso geiriau am fodau dynol i Dduw yn *ddiamwys* ('gydag un llais', h.y. gyda'r un ystyr yn union), mae athronwyr crefydd wedi dangos:

- (1) bod rhai cysyniadau diwinyddol technegol sydd ddim ond yn bosib eu cymhwyso i Dduw yn *unig* (e.e. asedod neu 'hunan-fodolaeth') a dim ond Duw sy'n wir 'anfeidrol' (ddim yn gyfyngedig); ac
- (2) fe all hyd yn oed geiriau fel 'doeth' fod yn *ddiamwys* wrth eu cymhwyso i ni a Duw, oherwydd mae'r gair 'doeth' yn dal i fod yn gyfystyr â 'gwybod llawer o bethau' a chyferbyniol i 'ffôl', er *'there are differences in what wisdom amounts to in God'* (Swinburne, 1992, t. 152; gwelwch hefyd pen. 3). Yn ôl William Alston, mae'n bosib cymhwyso sawl term o fyd bodau dynol yn *ddiamwys* i Dduw, o leiaf mewn ffordd 'rannol', gan fod rhai termau dynol ('gwybod', 'ewyllys', 'caru', 'maddau', 'gwneud', ac ati) yn dal craidd cyffredin o ystyr yn nhermau swyddogaeth pan fyddan nhw'n cael eu cymhwyso i Dduw. Er enghraifft:

What it is for God to make something is radically different from what it is for a human being to make something; but that does not rule out an abstract feature in common, for example, that by the exercise of agency something

Disgrifio Duw

comes into existence. (Alston, 1987, t. 24; gwelwch hefyd Alston, 2005)

Mae'r cyferbyniad rhwng cyfatebiaethau a throsiadau yn aml yn cael eu trin fel gwahaniaeth mewn graddfa yn hytrach na gwahaniaeth mewn math, oherwydd eu bod yn meddiannu terfynau sbectrwm parhaus o ystyr symudol: gwelwch Astley, 2004, tt. 53-54; Stiver, 1996, t. 127. Ymhellach, os edrychwch chi ar enghreifftiau Aquinas o gyfatebiaethau, fe allech chi ddadlau bod ein syniad ni o fod yn fyw hefyd yn syniad 'materol iawn' - yn y synnwyr corfforol - ac felly fe ddylai cymhwyso hynny i Dduw gael ei ystyried fel rhywbeth trosiadol.

Symbolau

Yn hanfodol, rhywbeth sy'n cynrychioli rhywbeth arall yw symbol. Gyda'r diffiniad hwn, mae pob iaith yn symbolaidd, hyd yn oed pan fydd yn cael ei defnyddio'n llythrennol ac yn ddiamwys, gan ei bod yn cynrychioli peth realaeth, proses neu syniad haniaethol y tu allan i iaith. Am y rheswm hwn mae'n well meddwl yn y lle cyntaf am *sefyllfaoedd a gwrthrychau empirig* fel symbolau. Mae'r enghreifftiau sydd gennym mewn Cristnogaeth yn cynnwys y groes ffisegol a digwyddiad hanesyddol croeshoeliad Crist.

Mewn crefydd, fe allwn ni ystyried *iaith* symbolaidd fel cyfrwng i gyfeirio at wrthrychau, pobl a digwyddiadau yn y byd hwn (y gwir symbolau) y mae credinwyr crefyddol yn meddwl amdany'n nhw fel rhywbeth sy'n cynrychioli – a thrwy hynny yn datguddio ac yn mynegi – realaeth sy'n gorwedd y tu hwnt i bethau'r byd hwn. Mae iaith symbolaidd o'r fath yn gweithio '*by taking images derived from the world of sense experience and using them to speak of*

that which transcends them' (Fawcett, 1970, t. 30). Er hynny, mae llawer o ysgrifenyddwyr yn defnyddio'r termau 'symbol' a 'throsiad' yn gyfnewidiol.

Ysgrifennodd Paul Tillich yn rymus - er nad bob amser yn glir iawn - am y ffordd y mae symbolau'n gallu cyrraedd yn ddychmygol y tu hwnt i gyfyngiadau ein syniadau neu gysyniadau. Mae symbol crefyddol eglur yn gallu gweithio trwy agor dimensiynau cudd realiti ar ei lefel fwyaf sylfaenol, dimensiwn y Sanctaidd trwy *gymryd rhan* rywsut '*in the power of the divine to which it points*'. Mae'r symbolau hyn bob amser mewn perygl o ddisodli'r Sanctaidd; ac mae ffydd os yw'n cymryd ei symbolau'n llythrennol yn dod y eilunaddolgar - '*faith, if it takes it symbols literally, becomes idolatrous!*' Ar wahân i'r hawliad bod Duw, fel y realiti eithaf, yn 'Fodolaeth ei Hunan', mae popeth arall sy'n bosib ei ddweud am Dduw'n symbolaidd (Tillich, 1968, cyfrol. 1, t. 265; 1957, t. 52; cf. Astley, 2011).

Trosiad

Nid dim ond ar gyfer beirdd y mae iaith drosiadol. Rydyn ni i gyd yn ei defnyddio trwy'r amser pan fyddwn ni'n disgrifio rhywbeth mewn geiriau sydd, yn llythrennol, ddim ond yn gymwys yn achos rhywbeth arall - pethau gwahanol iawn ambell dro. Wrth wneud hyn, rydyn ni'n perfformio naid o ddychmyg sy'n trosglwyddo iaith rhyngddyn nhw (*meta pherō*, 'I carry across') - sef siarad am un peth sy'n ymddangos fel pe bydden ni'n awgrymu rhywbeth arall - *speaking about 'one thing in terms which are seen to be suggestive of another'* (Soskice, 1985, t.15). Mae hyn yn dibynnu ar ein gallu i weld rhywbeth yn debyg (cyfatebiaeth) rhwng y ddau beth, fel mae Cristnogion yn ei wneud wrth siarad am yr eglwys fel 'corff Crist', a Duw fel 'bugail', 'brenin',

Disgrifio Duw

'rhiant', 'crochenydd' neu 'graig'. Mae Janet Soskice yn dadlau fel a ganlyn:

no metaphor is completely reducible to a literal equivalent without consequent loss of content . . . There are many areas where, if we do not speak figuratively, we can say very little. (Soskice, 1985, tt. 94-96)

Gan y byddai'r ystyr ffigurol yn cael ei golli wrth gyfieithu i iaith lythrennol, mae'n well gan lawer o bobl lynu at drosiadau wrth siarad am Dduw.

O gael eu deall yn iawn, fe all trosiadau gynnog amddiffyniad cryfach na chyfatebiaeth yn erbyn y demtasiwn i ddisgrifio Duw'n 'anthropomorffaid' (ar union ffurf bod dynol), a thrwy hynny ostwng y creawdwr i lefel creadur. Nid yw dweud 'Duw yw ein tad' yn golygu mai gwryw yw Duw, ac nid yw dweud 'Myfi yw y wir winwydden' yn golygu bod Iesu'n tyfu ffrwythau llythrennol. Mewn addoliad ac yn yr ysgrythur, mae trosiadau yn aml yn cael eu pentyrru gyda'i gilydd a'r rheini'n cyd gymhwyso'r naill a'r llall. Os yw Duw'n 'graig' (Deuteronomium 32:15) yn ogystal â bod yn llew (Hosea 5:14), ac yn olchwraig (Eseia 4:4) yn ogystal â bod yn frenin (Jeremeia 10:7), does dim posibil cymryd un disgrifiad yn llythrennol - neu'n gyflawn. Mae hyn yn wir hefyd am y *cymariaethau* a ddefnyddiwyd yn namhegion Iesu, lle cyhoeddir bod

teyrnas Dduw yn debyg i lawer o wahanol sefyllfaoedd (cf. Mathew 20:1-16; Luc 18:9-14).

Yn ddiweddarach, fe anelodd uniongrededd at gael pob model posibil '[orthodoxy] aimed at having every possible model' (Ramsey, 1957, t. 170). Pan fydd diwinyddiaeth systematig yn datblygu'r trosiadau dychmygol a'r storïau Beiblaidd i fod yn fodolau mwy cysyniadol, ac yna i gydsyniadau mwy haniaethol hyd yn oed fel y Drindod, ac esboniadau mwy datblygedig fel damcaniaeth marwolaeth Crist fel cosbedigaeth ddirprwyol, mae cynnydd mewn eglurder a chysondeb - ond perygl o golli'r dimensiwn *crefyddol*.

Images 'feed' concepts; concepts 'discipline' images. Images without concepts are blind; concepts without images are sterile . . . Concepts are never free of the need for funding by images, the affectional and existential richness of images, and the qualification against conceptual pretensions supplied by the plurality of images. (McFague, 1983, t. 26; gwelwch Astley, 2010, tt. 58-62)

The existential nature of our God-talk . . . excludes mere intellectual speculation about how God is apart from the way we relate to him in our spirituality and in the life of faith. (Brümmer, 2005, tt. 12, 17)

Disgrifio Duw

Geirfa

analogical - cydweddol: defnyddio'r un iaith gydag ystyr tebyg.

analogy of attribution - cydweddiad edifeirwch: e.e. mae Duw'n 'ddoeth' fel yn achos doethineb bodau dynol.

analogy of being - cydweddiad bod: y tebygrwydd rhwng bodau dynol a Duw sy'n ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi eu creu ar lun a delw Duw.

analogy of proportionality – cydweddiad cymesuredd: e.e. mae Duw'n 'ddoeth' fel mewn ffordd sy'n briodol i natur Duw (fel rydyn ni'n ddoeth mewn ffordd sy'n briodol i'n ffordd ni ein hunain).

equivocal - amwys: defnyddio'r un iaith gydag ystyron hollol wahanol.

existential - dirfodol: yn berthnasol i ofalon dynol a phrofiadau unionyrchol bywyd.

metaphor - trosiad: ffigur ymadrodd lle sonnir am rywbeth yn nhermau rhywbeth arall.

univocal - diamwys: defnyddio'r un iaith gyda'r un ystyr yn union.

Cysylltau rhyngrwyd

<http://www.biblegateway.com/resources/dictionary-of-bible-themes/5409-metaphor>
(BibleGateway.com: Enghreifftiau o drosiadau Beiblaidd)

<http://www.religion-online.org/showbook.asp?title=452>
Sallie McFague, *Speaking in Parables: A Study in Metaphor and Theology*

<http://www.iep.utm.edu/rel-lang/>
(‘Internet Encyclopedia of Philosophy’: Jennifer Hart Weed yn trafod iaith crefydd)

Pwyntiau trafod

1. Cymrwch emyn priodol, credo neu ddarn priodol o'r Beibl a dadansoddwch ystyr yr iaith y mae'n ei gymhwyso i Dduw.
2. Beth yw manteision ac anfanteision iaith crefydd (a) gydweddol a (b) trosiadol?
3. Ym mha ffyrdd y mae natur gydweddol a natur drosiadol iaith crefydd yn berthnasol i'r feirniadaeth bod ambell gred grefyddol yn ymddangos fel nas ffugiwyd ('unfalsifiable')?

Cyfeiriadau

- Alston, P. (1987). Functionalism and theological language. In *The concept of God* (tt. 21-40). Ed. T.V. Morris, Oxford: Oxford University Press.
- Alston, P. (2005). Religious language. In *The Oxford handbook of philosophy of religion* (pp. 220-244). Ed. W.J.Wainwright, Oxford: Oxford University Press.
- Astley, J. (2004). *Exploring God-talk: Using language in religion*. London: Darton, Longman and Todd.
- Astley, J. (2010). *SCM Studyguide to Christian Doctrine*. London: SCM Press.
- Astley, J. (2011). Myth and symbol. *Dialogue: A journal of religion and philosophy*, 36, 29-33.
- Brümmer, V. (1981). *Theology and philosophical inquiry: An introduction*. London: Macmillan.
- Brümmer, V. (2005). *Atonement, Christology and the Trinity: Making sense of Christian doctrine*. Aldershot: Ashgate.
- Davies, B. (1985). *Thinking about God*. London: Geoffrey Chapman.
- Davies, B. (1993). *An introduction to the philosophy of religion*. Oxford: Oxford University Press.
- Fawcett, T. (1970). *The symbolic language of religion: An introductory study*. London: SCM Press.
- McFague, S. (1983). *Metaphorical theology: Models of God in religious language*. London: SCM Press.
- Ramsey, I.T. (1957). *Religious language: An empirical placing of theological phrases*. London: SCM Press.
- Ramsey, I.T. (1961). *On communicating religion*. London: National Society.
- Ramsey, I.T. (1963). *On being sure in religion*. London: Athlone.
- Ramsey, I.T. (ed.) (1971). *Words about God: The philosophy of religion*. London: SCM Press.
- Soskice, J.M. (1985). *Metaphor and religious language*. Oxford: Clarendon Press.
- Stiver, D.R. (1996). *The philosophy of religious language: Sign, symbol, and story*. Oxford: Blackwell.
- Swinburne, R. (1992). *Revelation: From metaphor to analogy*. Oxford: Oxford University Press.
- Tillich, P. (1957). *The dynamics of faith*. New York: Harper & Row.
- Tillich, P. (1968). *Systematic theology*. Welwyn: Nisbet.

Y Parchedig Athro Jeff Astley oedd Cyfarwyddwr sefydlol y North of England Institute for Christian Education, ac mae ar hyn o bryd yn Athro Anrhydeddus ym Mhrifysgolion Durham, Glyndŵr a York St John. Testun traethawd ymchwil ei ddoethuriaeth oedd Ian Ramsey, ac mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys y llyfr *Exploring God-talk: Using language in religion*, London: Darton, Longman & Todd, 2004..